# Cynllun Cynefin Cymru 2025
# Safonau Dilysadwy

*Safonau dilysadwy a chanllawiau ar gyfer dosbarthu methiannau:*

**Cynllun Cynefin Cymru**

**Fersiwn 1.0 2025**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

*Dylid defnyddio'r ddogfen hon ar cyd â Matrics Cosbau Cynefin Cymru i ddiffinio'r Difrifoldeb, Rhychwant a Parhad y cosbau.

# Cod Cyffredinol ar gyfer Pob Cynefin

**Mae'r rheolau'n berthnasol i bob Tir Cynefin.  Maen nhw'n berthnasol i bob ardal led-naturiol ni waeth a ydych yn rheoli cynefin fel rhan o Gynllun Cynefin Cymru 2025.**

Dyma'r ddiffiniadau o'r cynefinoedd:

**Glaswelltir lled-naturiol:** Unrhyw lystyfiant sydd â chyfansoddiad o lai na 25% o rywogaethau amaethyddol wedi'u hau yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017.

Os yw tir yn cynnwys llai na 25% o orchudd rhygwellt a meillion gwyn neu rywogaethau eraill wedi'u hau'n amaethyddol, mae'r rheoliadau AEA yn berthnasol iddo. Mae tir sy'n dod o fewn y diffiniad hwn yn cael ei ddosbarthu gan y rheoliadau fel tir lled-naturiol a rhaid gwneud Cais Sgrinio AEA cyn dechrau unrhyw waith gwella ar y tir.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n hawlio ar gyfer ardal o gynefin, bydd dal angen i chi gwblhau cais sgrinio AEA os ystyrir bod y tir yn lled-naturiol a'ch bod yn dymuno gwella'r tir.

Cofiwch, os ydych chi'n bwriadu cyflawni prosiect, neu wedi ymgymryd â prosiect ar dir lled-naturiol neu ailstrwythuro ar raddfa fawr ar eich daliad, mae angen cwblhau cais sgrinio AEA.

**Coetiroedd a choed:** Ystyrir bod pob coetir a choed yn gynefinoedd, ni waeth a ydynt yn gymwys i gael taliadau o dan y cynllun ai peidio.

Os ydych chi'n bwriadu cwympo mwy na $5m^3$ o bren ym mhob chwarter calendr, rhaid i chi wneud cais am drwydded cwympo coed dan Ddeddf Coedwigaeth (1967).

Os ydych chi'n bwriadu cynnal prosiect coedwigaeth sy'n fwy na'r trothwyon a nodir yn Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, rhaid i chi geisio caniatâd o dan y rheoliadau hynny i gyflawni'r prosiect.

# Rheolau sy'n berthnasol i'r holl gynefinoedd yr ydych chi'n hawlio.

**Cadw Dyddiadur gwaith**
Bydd angen cadw dyddiadur gwaith ar gyfer pob parsel o dir sydd wedi'i gynnwys yn yr hawliad.

**Cadw Dyddiadur pori**
Bydd angen cadw dyddiadur pori ar gyfer cynefinoedd â dosbarthiadau 1, 2 a 6. Bydd angen i'r dyddiadur pori gynnwys cofnod o'r holl dda byw sy'n mynd i mewn i'r cynefin neu'n cael eu symud ohono yn ystod y flwyddyn. Mae angen i'r dyddiadur pori hwn fod ar gael pan gynhelir yr arolygiad.

**Cadw a chynnal pob coeden aeddfed bresennol, coed yn y caeau a choed hynod ym mhob rhan o'r fferm oni bai eu bod yn goed peryglus. Rhaid i chi:**

- Cadw'r holl goed yn y caeau a choed hynod.
- Atal difrod i goed gan dda byw neu beiriannau.
- Cadw coed marw sy'n dal i sefyll lle mae'n ddiogel gwneud hynny (lle nad yw'n berygl amlwg).
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn tocio neu'n torri'n briodol gyda thoriad glân.
- Dylid cadw pren marw sydd wedi disgyn naill ai yn y fan a'r lle neu ei symud i leoliad cysgodol gerllaw.
- Dilyn unrhyw ofynion penodol ar gyfer coed sy'n gysylltiedig â math penodol o gynefin.

**Peidiwch â:**

- Troi'r pridd / rholio dan gorun/canopi i ddiogelu'r system wreiddiau.
- Rhoi gwrtaith o dan y corun/canopi.
- Calchu o dan y corun/canopi.
- Chwistrellu neu ganiatáu i Gynhyrchion Amddiffyn Planhigion lifo o dan y corun/canopi.
- Plannu coed ychwanegol o fewn 5m o ymyl canopi'r coed.
- Rhoi porthiant atodol o dan ganopi a/neu ger unrhyw goed hynod.
- Storio peiriannau neu ddeunyddiau o dan goed hynod yn y caeau.

**Peidiwch â difrodi tir cynefin**
Y diffiniad o ddifrod yw achosi colli math o lystyfiant sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw. Dyma enghreifftiau o weithredoedd a allai achosi difrod gorbori neu danbori, sathru gan dda byw neu greu rhigolau gyda pheiriannau fferm neu gerbydau eraill neu gwympo coed yn anghyfreithlon.

**Peidio â gwella tir cynefin yn amaethyddol**
Mae gwella amaethyddol yn golygu rheolaeth sy'n arwain at gynnydd mewn rhywogaethau amaethyddol fel rhygwellt a meillion gwyn. Ni ddylid gwella tir cynefin yn amaethyddol yn ystod oes y Contract, ni waeth a oes caniatâd sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi dod i law.

**Peidiwch ag aredig, trin y tir nac ail-hau tir cynefin.**

**Peidiwch â rholio tir cynefin na'i lyfnu ag oged gadwyn rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf.**
Rhaid cofnodi manylion yn y Dyddiadur Gwaith pan fyddwch yn rholio tir cynefin a'i lyfnu ag oged gadwyd.

**Peidiwch â gosod draeniau newydd nac addasu draeniau presennol ar dir cynefin nac o fewn 100m i gynefin gwlyptir lle byddai'r ffos neu'r draen yn atal dŵr â ryng-gipiwyd rhag llifo tuag at y gwlyptir.**
Mae gwlyptiroedd yn gynefinoedd sydd â dŵr ar yr wyneb neu'n agos ato y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Ni chaniateir draenio tyrchol chwaith.

**Peidiwch â chlirio ffosydd ar dir cynefin rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.** Gellir gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y draeniau presennol fel a ganlyn:
- Gellir clirio llystyfiant a silt, gan adael llystyfiant ar hyd un ochr i'r ffos.
- Ni chaniateir dyfnhau a lledu ffosydd na gosod pibellau draenio a llenwi ffosydd.
- Gellir cynnal draeniau meysydd i'r safon wreiddiol cyn belled nad yw hyn yn niweidio'r cynefin.
- Rhaid cofnodi manylion clirio ffosydd ar dir cynefin yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â gwneud unrhyw weithgarwch symud pridd ar dir cynefin, gan gynnwys torri mawn a llenwi pantiau naturiol.**

**Peidiwch ag echdynnu creigiau, sgri, tywod, graean bras, clai na mawn o dir cynefin nac o afonydd.**

**Peidiwch â rhoi slyri, gwrteithiau anorganig, gwrteithiau organig, tail buarth, slag sylfaenol, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall oddi ar y fferm ac ar y fferm (gan gynnwys dip defaid) ar dir cynefin.** Gellir gwasgaru tail buarth pan ganiateir hynny gan Gam Gweithredu Rheoli Dosbarthiad Cynefinoedd penodol yng Nghynllun Cynefin Cymru yn unig.

**Peidiwch â defnyddio calch ar dir cynefin,** oni bai y caniateir hynny gan Gam Gweithredu Dosbarthiad Rheoli Cynefinoedd Cynllun Cynefin Cymru.

**Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff fferm arall ar dir cynefin, nodweddion tirwedd na nodweddion archeolegol nac o fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵr gan gynnwys draeniau meysydd.**
**Peidiwch ag achosi na chaniatáu'r canlynol:**

1. **caniatáu i unrhyw rywogaethau anfrodorol goresgynnol ymsefydlu**
2. **ac unrhyw rywogaethau anfrodorol goresgynnol newydd neu bresennol i ledaenu i'r ardal neu oddi yno** (mae hyn yn cynnwys atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag lledaenu drwy ddiffyg gweithredu), i sicrhau nad yw maint y rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn y cynefin yn cynyddu tra bo'r ardal yn rhan o'r cynllun.

**Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr na phryfladdwyr ac eithrio i:**

1. sbot-chwynnu a rheoli chwyn niweidiol neu rywogaethau anfrodorol goresgynnol fel marchysgallen, ysgallen y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron, Jac y Neidiwr, efwr enfawr
2. rheoli llystyfiant ymledol ar nodweddion hanesyddol ac adeiladau a strwythurau fferm traddodiadol.

Cyn defnyddio chwynladdwyr neu bryfladdwyr, rhaid i chi sicrhau na fydd hyn yn niweidio nac yn dinistrio unrhyw rywogaethau brodorol dymunol o fflora neu ffawna drwy chwilio am gofnodion neu dystiolaeth ohonynt yn gyntaf.

**Peidiwch ag adeiladu llwybrau, ffyrdd, iardiau, arwynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio pan ganiateir hynny drwy weithred benodol Cynllun Cynefin Cymru.**

**Peidiwch â chwympo coed aeddfed presennol,** ac eithrio pan fyddant yn peri perygl i'r cyhoedd a bod Llywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i'w cwympo.

**Peidiwch â llosgi llystyfiant, glaswelltir nac unrhyw ddeunydd a dorrwyd ar dir cynefin,** ac eithrio fel rhan o gynllun y cytunwyd arno i losgi grug.

**Peidiwch â rhoi porthiant atodol ar dir cynefin,** ac eithrio ar gyfer mannau bwydo caled presennol a darparu bwydydd llyfu neu flociau er mwyn gallu defnyddio porthiant bras, neu lle bo angen penodol am hynny er lles da byw. Mae tywydd garw a bodloni gofynion maethol anifeiliaid sydd ar fin rhoi genedigaeth yn debygol o arwain at yr angen i ddarparu porthiant atodol. Rhaid rhoi porthiant atodol mewn ffordd sy'n osgoi achosi difrod i lystyfiant, pridd a chyrsiau dŵr y cynefin. Mae'r difrod yn cynnwys gorbori, gorfaethu, sathru gormodol ar lystyfiant, sathru ar bridd gan anifeiliaid pori, creu rhigolau â cherbydau a ddefnyddir i gludo porthiant, erydu pridd a llygredd dŵr.

**Peidiwch â storio deunyddiau, cerbydau, ôl-gerbydau na pheiriannau ar dir cynefin.** Gall eithriadau fod yn berthnasol i'r amodau uchod lle mae hynny'n ofynnol er mwyn cyflawni buddion amgylcheddol penodol sy'n ofynnol o dan Gynllun Cynefinoedd Cymru.

| Torri'r Cod Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Nid oes dyddiadur gwaith a/neu ddyddiadur pori cyfredol wedi'i gwblhau ar gael i'w archwilio. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd** – Angen mân ddiweddaru neu lle mae gwybodaeth oedd ar goll ar gael o ffynhonnell arall.<br><br>**Isel –** 5 neu lai o gofnodion gwaith ar goll.<br><br>**Canolig –** Mwy na 5 cofnod gwaith ar goll.<br><br>**Uchel** – Dim cofnodion ar gael ar gais. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth nad yw coed aeddfed, coed yn y caeau na choed hynod wedi cael eu cadw / eu cynnal, oni bai eu bod yn beryglus a'u bod yn berygl uniongyrchol i'r cyhoedd a bod Llywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i'w cwympo. | **Isel** – Coed gyda diamedr rhwng 4 a 12 modfedd.<br><br>**Canolig** – Coed gyda diamedr mwy na 12 modfedd a llai na 36 modfedd.<br><br>**Uchel** – Coed gyda diamedr mwy na 36 modfedd neu os yw'n goeden hynod. | **Rhychwant 1** = 1 goeden<br>**Rhychwant 2 =** 2-3 coeden<br>**Rhychwant 3 =** 4-5 coeden<br>**Rhychwant 4** = 6 a mwy o goed | **Parhaol** |
| Tystiolaeth o ddifrod i dir cynefin e.e. gorbori, tanbori, sathru, rhigolau wedi eu creu gan beiriannau fferm neu gerbydau eraill neu gwympo coed. | **Mesuradwy –** 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod cynefin wedi cael ei aredig, ei drin neu ei ail-hau. | **Mesuradwy** – Difrod i ardal o 1ha neu lai.<br><br>**Uchel –** Difrod i ardal o fwy nag 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o lyfnu tir cynefin ag oged gadwyn neu rolio tir cynefin rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd –** Wedi'i wneud yn ystod cyfnod caeedig, lle nad oes tystiolaeth o ddifrod i fflora/ffawna.<br><br>**Canolig** – Wedi'i wneud yn ystod y cyfnod caeedig ac mae tystiolaeth o ddifrod i fflora/ffawna. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth o osod draeniau newydd neu addasu draeniau presennol ar dir cynefin neu o fewn 100m i gynefin gwlyptir lle byddai'r ffos neu'r draen yn rhyng-gipio dŵr sy'n llifo i'r gwlyptir. | **Isel –** 10m neu lai.<br><br>**Canolig** – Mwy na 10m, hyd at ac yn cynnwys 50m.<br><br>**Uchel** – Mwy na 50m. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br><br>**Cywiradwy 2**<br><br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod y ffosydd presennol wedi cael eu clirio ar dir cynefin rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. | **Isel** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o weithgarwch symud pridd ar dir cynefin, gan gynnwys torri mawn a/neu lenwi pantiau naturiol. | **Mesuradwy –** 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth fod creigiau, sgri, tywod, graean bras, clai neu fawn wedi'i echdynnu o dir cynefin neu o afonydd. | **Canolig**<br><br>**Uchel -** wedi'u dinistrio neu eu symud ymaith | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o daenu slyri, gwrtaith anorganig, gwrteithiau organig, tail buarth, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff neu wastraff arall oddi ar y fferm ac ar y fferm (gan gynnwys dip defaid) ar dir cynefin. | **Mesuradwy** – Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd o 1ha neu lai.<br><br>**Uchel –** Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd mwy na 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o daenu calch ar dir cynefin. | **Mesuradwy** – Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd o 1ha neu lai.<br><br>**Uchel –** Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd mwy na 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o storio tail, silwair neu wastraff fferm arall ar dir cynefin, tirwedd neu nodweddion archeolegol neu o fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵr gan gynnwys draeniau meysydd. | **Uchel** | **Rhychwant 1**<br><br>**Rhychwant 4** (os yw'n ddŵr ffo) | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** (os oes tystiolaeth o ddŵr ffo neu lygredd posibl) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth y caniatawyd i Rywogaethau Goresgynnol Anfrodorol neu chwyn niweidiol presennol ledaenu neu dystiolaeth o rywogaethau anfrodorol goresgynnol / chwyn niweidiol newydd yn ymsefydlu. | **Isel** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o ddefnyddio chwynladdwyr neu bryfladdwyr ac eithrio ar gyfer sbot-chwynnu chwyn ymledol neu niweidiol neu i reoli llystyfiant ymledol ar nodweddion hanesyddol, adeiladau traddodiadol neu strwythurau fferm. | **Mesuradwy** – Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd o 1ha neu lai.<br><br>**Uchel –** Lle mae'n cael ei ddefnyddio ar arwynebedd mwy na 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o adeiladu traciau, ffyrdd, buarthau, arwynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin. | **Mesuradwy –** 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod llystyfiant, glaswelltir neu unrhyw dorion wedi cael eu llosgi ar dir cynefin. | **Mesuradwy –** Tystiolaeth o losgi ar ardal ag arwynebedd o 1ha neu lai.<br><br>**Uchel –** Tystiolaeth o losgi ar ardal ag arwynebedd o fwy na 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o borthi atodol. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd –** tystiolaeth o borthi atodol ond dim difrod<br><br>**Canolig** – tystiolaeth o borthi atodol a difrod i dir cynefin e.e. Sathru, nitreiddio'r pridd<br><br>**Uchel -** Porthi atodol anaddas lle mae difrod i dir cynefin na ellir ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol erbyn diwedd y tymor tyfu. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o storio deunyddiau, cerbydau, ôl-gerbydau neu beiriannau. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2** |

| Hysbysiadau o newidiadau i gontract | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod i unrhyw werthiant neu drosglwyddiad tir yn y Contract neu hysbysu am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar eich contract | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Peidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod am werthu a throsglwyddo tir neu unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y contract. | **Isel** - Cafwyd hysbysiad, ond nid o fewn 30 diwrnod.<br><br>**Canolig -** Heb dderbyn hysbysiad. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| **Safleoedd Dynodedig** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid i'r gwaith o reoli tir sydd wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Ramsar a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ar ffermydd sy'n ymuno â Chynllun Cynefin Cymru 2025 gadw at **un** o'r tri opsiwn canlynol os yw'n berthnasol i'ch sefyllfa chi ar unrhyw safle dynodedig unigol ar y daliant:<br>**1.** Os **nad** ydych chi wedi cael caniatâd SoDdGA, contract Glastir Uwch, cytundeb rheoli neu gynllun rheoli y cytunwyd arno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ers 1 Ionawr 2020, rhaid i chi lynu wrth ofynion rheoli Cynllun Cynefin Cymru 2025.<br>**2.** Os **na** wnaethoch chi gymryd rhan yng Nghynllun Cynefin Cymru 2024, rhaid i chi ddewis:<br>**Naill ai:**<br>Cadw at ofynion rheoli Cynllun Cynefin Cymru 2025<br>**Neu:**<br>Cadw at unrhyw un o'r camau rheoli o fewn caniatâd SoDdGA Cyfoeth Naturiol Cymru, cytundeb rheoli neu gynllun rheoli rydych chi wedi'i gael ers 1 Ionawr 2020.<br>**3.** Os cawsoch ddyfarniad grant Cynllun Cynefin Cymru yn 2024 **a** bod gennych gontract Glastir Uwch wedi'i gymeradwyo o'r blaen, rhaid i chi barhau â'r gwaith rheoli a ganiatawyd yn y contract Glastir Uwch.<br>Os bydd angen i chi newid eich rheolaeth o'r camau gweithredu cytundebol neu gydsyniol sydd wedi'u cofnodi (cydsyniad SoDdGA ers 1 Ionawr 2020, cytundeb rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru, cynllun rheoli, contract Glastir Uwch neu God Cyffredinol Cynllun Cynefin Cymru 2025 ar gyfer yr Holl Gynefinoedd a'r Camau Rheoli Dosbarthiad Cynefinoedd perthnasol), rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am ganiatâd i wneud hynny. | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Methu â chadw at y rheolaeth a gydsyniwyd iddo yng nghontract Glastir Uwch (lle cafodd y cwsmer grant Cynllun Cynefin Cymru yn 2024). | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Methiant i ofyn am ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru i newid y dull o reoli'r camau gweithredu contractiol neu gydsyniol (cydsyniad SoDdGA ers 1 Ionawr 2020, cytundeb rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru, cynllun rheoli, contract Uwch Glastir neu God Cyffredinol Cynllun Cynefin Cymru 2025 ar gyfer Pob Cynefin a'r Camau Rheoli Dosbarthiad Cynefinoedd perthnasol) | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

## TORRI DOSBARTHIAD CYNEFIN

| 1. Morfa Heli Arfordirol | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion Penodol ar gyfer cynefin a reolir fel Morfa Heli Arfordirol:** | | | |
| **Dylech:**<br>• Peidio â gorbori / tanbori.<br>**Peidiwch â:**<br>• Addasu unrhyw gilfachau na phantiau nac ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a deinamig fel newidiadau oherwydd stormydd neu wyntoedd.<br>• Torri brwyn rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf na thorri neu docio mwy na 30% o rywogaethau brwyn neu chwyn mewn unrhyw flwyddyn.<br>• Plannu unrhyw goed newydd.<br>• Caniatáu sathru yn yr ardal (mae gatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol, ar yr amod bod llai na 5% o'r gorchudd yn ardaloedd sydd wedi cael eu sathru ac yn dir moel).<br>• Adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, arwynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin ac eithrio pontydd syml i ganiatáu croesi cilfachau. | | | |
| **Tor-amod Cyffredinol ar gyfer Morfa Heli Arfordirol** | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw'r HOLL ofynion ar gyfer Morfa Heli Arfordirol wedi cael eu cwblhau'n gywir. | **Isel**<br>**Canolig**<br>**Uchel** | **Rhychwant 1**<br>**Rhychwant 2**<br>**Rhychwant 3**<br>**Rhychwant 4** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| **Tor-amod ar gyfer Morfa Heli Arfordirol** | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth o danbori neu orbori helaeth. | **Mesuradwy** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o addasu neu ymyrryd â chilfachau, tir caled a phantiau. | **Isel –** 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth bod brwyn wedi cael eu torri rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf neu fod mwy na 30% o rywogaethau pabwyr neu lystyfiant annymunol wedi cael eu torri neu eu gorchuddio mewn unrhyw flwyddyn. | **Mesuradwy** – Lle mae ardal o 1ha neu lai wedi'i thorri dros y lefel a ganiateir.<br><br>**Uchel -** Lle mae ardal o fwy nag 1ha wedi cael ei thorri dros y lefel a ganiateir. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o blannu coed newydd. | **Isel –** 0.01ha neu lai<br><br>**Canolig –** 0.50ha neu lai<br><br>**Uchel** – Mwy nag 0.50ha | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o sathru. | **Isel -** Tystiolaeth o sathru ond dim tystiolaeth o ddŵr ffo.<br><br>**Uchel -** Tystiolaeth o ddŵr ffo o'r pridd yn mynd i mewn i gwrs dŵr oherwydd sathru. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o adeiladu traciau, ffyrdd, buarthau, arwynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin ac eithrio pontydd syml i ganiatáu croesi cilfachau. | **Mesuradwy –** 1ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| 2. Twyni Tywod Arfordirol a Thraeth Cerrig Mân |
|---|
| **Gofynion Rheoli Penodol ar gyfer cynefinoedd sy'n cael eu rheoli fel Twyni Tywod Arfordirol a Thraeth Cerrig mân:** |
| **Dylech:**<br>• Cynnal uchder porfa gydag amrediad o wahanol uchderau, gan gynnwys ardaloedd byr (is na 5cm) a thal (uwch na 15cm).<br>**Peidiwch â:**<br>• Plannu unrhyw goed na rhywogaethau o brysgwydd.<br>• Pori traeth cerrig mân.<br>• Caniatáu sathru yn yr ardal (mae gatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol, ar yr amod bod llai na 5% o'r gorchudd yn ardaloedd sydd wedi cael eu sathru ac yn dir moel).<br>• Torri na thocio brwyn a rhywogaethau o chwyn.<br>• Caniatáu i brysgwydd ymledu.<br>• Rheoli na cheisio rheoli cwningod **o fewn twyni tywod a thraethau cerrig mân.**<br>• Tynnu tywod nac unrhyw ddeunydd agreg arall o'r twyni tywod neu'r cerrig mân.<br>• Gwneud gwaith ail symud (gan gynnwys ailbroffilio).<br>• Ail-broffilio strwythur y cerrig mân, gan gynnwys cribau.<br>• Defnyddio cerbydau na badau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon neu hamdden.<br>• Creu amddiffynfeydd môr neu waith i ddiogelu'r arfordir. |

| **Torri Amod Cyffredinol ar gyfer Twyni Tywod Arfordirol a Thraethau Cerrig Mân** | | | |
|---|---|---|---|
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw'r HOLL ofynion ar gyfer Morfa Heli Arfordirol a Thraethau Cerrig Mân wedi cael eu cwblhau'n gywir. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd**<br>**Isel**<br>**Canolig**<br>**Uchel** | **Rhychwant 1**<br>**Rhychwant 2**<br>**Rhychwant 3**<br>**Rhychwant 4** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| Tor-amod Cyffredinol ar gyfer Twyni Tywod Arfordirol a Thraethau Cerrig Mân | | | |
|---|---|---|---|
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw gofynion uchder y borfa wedi'u cynnal i gynnwys glaswellt byr (llai na 5cm) a glaswellt tal (dros 5cm). | **Mesuradwy** – 3ha neu lai.<br><br>**Uchel** – Mwy nag 3ha | **Rhywchwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod traeth cerrig mân wedi'u bori. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd** – Tystiolaeth o bori ond heb achosi difrod i'r cynefin.<br><br>**Isel** – Tystiolaeth bod da byw wedi achosi difrod drwy bori o fewn un parsel o dir.<br><br>**Canolig** – Tystiolaeth bod stoc da byw wedi achosi difrod drwy bori ar fwy nag un parsel o dir. | **Rhychwant 1**<br><br>**Mesuradwy** (os yw o ddifrifoldeb Isel neu'n Ganolig) | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o blannu rhywogaethau o goed a phrysgwydd newydd. | **Isel –** 0.01ha neu lai<br>**Canolig –** 0.50ha neu lai<br>**Uchel** – Mwy nag 0.50ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o sathru. | **Isel -** Tystiolaeth o sathru ond dim tystiolaeth o ddŵr ffo.<br><br>**Uchel -** Tystiolaeth o ddŵr ffo o'r pridd yn mynd i mewn i gwrs dŵr oherwydd sathru. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod rhywogaethau o frwyn neu chwyn wedi cael eu torri neu eu tocio. | **Mesuradwy –** Lle mae 1ha neu lai wedi cael ei dorri.<br><br>**Uchel -** Lle mae mwy nag 1ha wedi cael ei dorri. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o ganiatáu ymlediad prysgwydd. | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o reoli cwningod neu fod ymdrechion i'w rheoli o fewn twyni tywod a thraethau cerrig mân | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth o dynnu tywod neu unrhyw ddeunydd agreg arall o'r twyni tywod neu'r cerrig mân | **Canolig –** Wedi'i ddinistrio'n rhannol / wedi'i symud ymaith.<br><br>**Uchel -** Wedi'i ddinistrio neu ei symud ymaith. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o waith adfer symudedd twyni (gan gynnwys ailbroffilio). | **Uchel** | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod strwythur y cerrig mân / cribau wedi cael eu hailbroffilio | **Canolig** | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod cerbydau neu fadau wedi cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon neu hamdden. | **Canolig –** Wedi creu un trac.<br><br>**Uchel –** Wedi creu nifer o draciau. | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o waith i greu amddiffynfeydd môr / gwaith diogelu'r arfordir | **Uchel** | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| 3. Rhostir Iseldirol ac Arfordirol | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion Penodol ar gyfer cynefin a reolir fel Rhostir Tir isel ac Arfordirol** | | | |
| **Dylech:**<br><br>• Symud da byw i ffwrdd er mwyn atal sathru a chywasgu os bydd amodau’r tir yn mynd yn rhy wlyb.<br><br>**Peidiwch â:**<br><br>• Plannu unrhyw goed.<br>• Caniatáu lledaeniad prysgwydd, mieri neu goed (gweler Rheoli Llystyfiant Annymunol yn y Cod Cyffredinol ar gyfer Pob Cynefin).<br>• Caniatáu sathru yn yr ardal (gall gatiau a mannau porthi a dyfrhau fod yn dderbyniol, ar yr amod bod llai na 5% o’r gorchudd yn ardaloedd sydd wedi cael eu sathru ac yn dir moel)<br>• Llosgi ardaloedd o rostir gwlyb ac arforol. | | | |
| **Tor-amod Cyffredinol ar gyfer Rhostiroedd Iseldir ac Arfordirol** | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw’r HOLL ofynion ar gyfer Rhostir Iseldirol ac Arfordirol wedi cael eu cwblhau’n gywir. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd**<br>**Isel**<br>**Canolig**<br>**Uchel** | **Rhychwant 1**<br>**Rhychwant 2**<br>**Rhychwant 3**<br>**Rhychwant 4** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| **Tor-amod ar gyfer Rhostiroedd Iseldir ac Arfordirol** | | | |
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth o blannu coed newydd. | **Isel –** 0.01ha neu lai<br><br>**Canolig –** 0.50ha neu lai<br><br>**Uchel** – Mwy nag 0.50ha | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o ganiatáu ymlediad prysgwydd, mieri neu goed. | **Canolig** | **Rhychwant 1** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth o sathru. | **Isel -** Tystiolaeth o sathru ond dim tystiolaeth o ddŵr ffo.<br><br>**Uchel -** Tystiolaeth o ddŵr ffo o'r pridd yn mynd i mewn i gwrs dŵr oherwydd sathru. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth bod ardaloedd o rostir gwlyb ac, arforol wedi cael eu llosgi. | **Mesuradwy –** Tystiolaeth o losgi ar ardal ag arwynebedd o lai na 1ha.<br><br>**Uchel –** Tystiolaeth o losgi ar ardal sy'n fwy na 1ha. | **Mesuradwy** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
| Tystiolaeth o bori ar fawndiroedd gwlyb rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd** – Tystiolaeth o bori ond heb achosi difrod i'r cynefin.<br><br>**Isel** – Tystiolaeth bod da byw wedi achosi difrod drwy bori o fewn un parsel o dir.<br><br>**Canolig** – Tystiolaeth bod stoc da byw wedi achosi difrod drwy bori ar fwy nag un parsel o dir. | **Rhychwant 1**<br><br>**Mesuradwy** (os yw o ddifrifoldeb Isel neu'n Ganolig) | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |

| 4. Gwlyptir wedi'i Amgáu a Glaswelltir Corsiog |
|---|
| **Gofynion Penodol ar gyfer cynefinoedd sy'n cael eu rheoli fel Gwlyptir wedi'i Amgáu – Cors, Ffen, Fflysh/Mignen a Glaswelltir Corsiog** |
| **Dylech:**<br>• Symud da byw i ffwrdd os bydd amodau'n mynd yn rhy wlyb, er mwyn atal sathru a chywasgu.<br>**Peidiwch â:**<br>• Peidiwch â phlannu unrhyw goed.<br>• Peidiwch â chaniatáu sathru yn y cae (mae gatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol, ar yr amod bod llai na 10% o'r gorchudd yn ardaloedd sydd wedi cael eu sathru ac yn dir moel).<br>• Ar laswelltir corsog, peidiwch â thorri na thocio mwy na 30% o rywogaethau brwyn neu lystyfiant annymunol mewn unrhyw flwyddyn (gweler Rheoli Llystyfiant Annymunol yn y Cod Cyffredinol ar gyfer Pob Cynefin).<br>• Peidiwch â chaniatáu i brysgwydd ymledu.<br>• Peidiwch â phori mawndiroedd gwlyb caeedig (Cors, Ffen, Fflysh/Mignen) rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth. **(Lle mae mawndiroedd gwlyb yn ffurfio rhan o fosaig o fewn parsel mwy ac ni ellir eithrio da byw, dylid lleihau'r gyfradd stocio dros y parsel i sicrhau nad yw'r mawndiroedd gwlyb yn cael eu difrodi trwy orbori neu sathru)**. Gellir pori glaswelltir corsiog caeedig (sydd ddim yn cynnwys Cors, Ffen, Fflysh/Mignen) drwy gydol y flwyddyn. |

| **Tor-amod Cyffredinol ar gyfer Gwlyptir wedi'i Amgáu a Glaswelltir Corsiog** | | | |
|---|---|---|---|
| **Tor-amod** | **Difrifoldeb** | **Rhychwant** | **Parhad** |
| Tystiolaeth nad yw'r HOLL ofynion ar gyfer Gwlyptiroedd wedi'u Hamgáu a Glaswelltir Corsiog wedi cael eu cwblhau'n gywir. | **Lleiafswm - Llythyr Rhybudd**<br>**Isel**<br>**Canolig**<br>**Uchel** | **Rhychwant 1**<br>**Rhychwant 2**<br>**Rhychwant 3**<br>**Rhychwant 4** | **Cywiradwy 1**<br>**Cywiradwy 2**<br>**Parhaol** |
